aMae NICE wedi asesu'r profion procalcitonin (prawf ADVIA Centaur BRAHMS PCT, prawf BRAHMS PCT Sensitive Kryptor, prawf Elecsys BRAHMS PCT, prawf LIAISON BRAHMS PCT a phrawf VIDAS BRAHMS PCT) er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynhyrchion hyn.

Caiff procalcitonin ei ryddhau i'r llif gwaed pan fydd haint bacterol yn y corff a gall lefelau uchel ddangos fod gan berson haint bacterol difrifol. Mae profion procalcitonin yn mesur faint o brocalcitonin sydd yn y gwaed, a gall y canlyniadau helpu meddygon i ganfod haint bacterol a phenderfynu a ddylid dechrau neu stopio triniaeth gwrthfiotig.

Nid oedd digon o dystiolaeth i argymell y dylid defnyddio'r profion hyn yn y GIG. Ond argymhellodd NICE y dylid cynnal rhagor o ymchwil a chasglu data pellach i ddangos effaith ychwanegu profion procalcitonin at ymarfer clinigol safonol yn y GIG.

ISBN 978-1-4731-1559-0